# Cofio'r Holocost

**GWEITHGAREDDAU I DDYSGWYR**

**GWEITHGAREDD 1**

**a)** Darllenwch y wybodaeth am Goflech Synagog Ddiwygiedig Caerdydd a'r goeden a blannwyd yn Llanwrtyd.

<u>Holocaust Memorial Tablet</u>




*Coflech Holocost Synagog Ddiwygiedig Caerdydd, 2019.*[1]

*Delwedd: Jewish History Association of South Wales/Cymdeithas Hanes Iddewig De Cymru (JHASW/CHIDC).*

Ar wal gefn Synagog Ddiwygiedig Caerdydd, wedi'i goleuo gan olau nad yw byth yn cael ei ddiffodd, mae Goflech a godwyd er cof am berthnasau aelodau'r synagog a lofruddiwyd yn yr Holocost ac nad yw eu beddau'n hysbys. Dechreuodd trafodaethau am greu'r Goflech yn

[1] Y ddelwedd hon yw'r olaf yn y gyfres o 11 delwedd.

1952, a chafodd ei chwblhau gyda 54 o enwau yn Ebrill 1954 a'i gosod yn y synagog. Ym 1999, adnewyddwyd y Goflech ac ychwanegwyd 48 o enwau eraill. Cwblhawyd y gwaith erbyn Hydref 2000.

<u>Llanwrtyd Wells</u>






*Coeden a blannwyd yn Llanwrtyd, lleoliad Ysgol y Wladwriaeth Tsiecoslofacia o 1943-45, fel rhan o ddathliadau 80 mlynedd Cymdeithas y Ffoaduriaid Iddewig.*

*Delweddau: Morris Brodie.*

Rhwng 1943 a 1945, sefydlodd llywodraeth-mewn-alltud Tsiecoslofacia ysgol uwchradd i ffoaduriaid yng Ngwesty Llyn Abernant yn Llanwrtyd. Addysgwyd tua 140 o ddisgyblion yn Ysgol Talaith Tsiecoslofacia, y rhan fwyaf ohonynt o gefndiroedd Iddewig.

**b)** Gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, atebwch y cwestiynau canlynol:

- Pam dylem ni goffáu'r rhai a fu farw yn yr Holocost?
- Pa ffurf allai fod ar y coffâd? (Er enghraifft, gweithiau celf, cerfluniau, coflech, barddoniaeth)?

**GWEITHGAREDD 2**

**a)** Gwyliwch glip o'r [Cynghorydd Rod McKerlich, Arglwydd Faer Caerdydd, yn siarad yn seremoni Diwrnod Cofio'r Holocost yn Neuadd y Ddinas Caerdydd fis Ionawr 2022].

**Trawsgrifiad Hanes Llafar:**

*Rydym yn cydnabod bod yr Holocost wedi ysgwyd gwareiddiad modern i'w seiliau. Bydd ei gymeriad digynsail a'i arswyd bob amser yn meddu ar ystyr byd-eang. Credwn fod yn rhaid i'r Holocost gael lle parhaol yng nghof ein cenedl. Rydym yn anrhydeddu'r goroeswyr sy'n dal gyda ni ac yn ailddatgan ein nodau cyffredin o gyd-ddealltwriaeth a chyfiawnder. Rhaid inni wneud yn siŵr bod cenedlaethau'r dyfodol yn deall achosion yr Holocost ac yn myfyrio ar ei ganlyniadau. Rydym yn addo cofio dioddefwyr erledigaeth y Natsïaid, a phob hil-laddiad. Rydym yn gwerthfawrogi aberth y rhai sydd wedi peryglu eu bywydau i amddiffyn neu achub dioddefwyr fel maen prawf o allu dynol er daioni yn wyneb drygioni. Rydym yn cydnabod bod dynoliaeth yn dal i gael ei chreithio gan y gred bod hil, neu grefydd, neu anabledd, neu rywioldeb, yn gwneud bywydau rhai pobl yn llai gwerthfawr nag eraill. Mae hil-laddiad, gwrth-semitiaeth, hiliaeth, senoffobia, a gwahaniaethu yn parhau. Mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i frwydro yn erbyn y drygau hyn. Rydym yn addo cryfhau ein hymdrechion i hyrwyddo addysg ac ymchwil am yr Holocost, a hil-laddiadau eraill. Byddwn yn gwneud ein gorau glas i sicrhau bod gwersi digwyddiadau o'r fath yn cael eu dysgu'n llawn. Byddwn yn parhau i annog Cofio'r Holocost drwy gynnal Diwrnod Cofio'r Holocost y Deyrnas Unedig bob blwyddyn. Rydym yn condemnio drygau rhagfarn, gwahaniaethu a hiliaeth. Rydym yn gwerthfawrogi cymdeithas rydd, oddefgar a democrataidd.*

**b)** Ystyried a thrafod mewn grwpiau bach

- Yn ôl y Cynghorydd McKerlich, pam fod hi'n bwysig cofio'r Holocost?
- Ydych chi'n gwybod am unrhyw ddigwyddiadau Diwrnod Cofio'r Holocost yn eich ysgol neu'ch ardal leol?
- Ydy hi'n bwysig cael Diwrnod Cofio'r Holocost? Pam?

**GWEITHGAREDD 3**

**a)** Darllenwch fywgraffiad byr o Ellen Davis:

Ganwyd **Ellen Davis** yn Kärry Wertheim ym 1929 yn Hoof, canolbarth yr Almaen. Yn ystod y 1930au, cafodd ei churo gan y Gestapo a Hitler Youth a'i gorfodi o'i chartref i gartref plant amddifad gyda'i brodyr a chwiorydd iau. Ymosodwyd ar y cartref plant amddifad yn ystod *Kristallnacht*[2] ac anfonwyd Ellen i Brydain ar y *Kindertransport*[3], ond bu'n rhaid i'w theulu aros ar ôl. Cafodd ei mabwysiadu gan gwpl yn Abertawe. Ym 1941, derbyniodd lythyr gan y Groes Goch yn dweud bod ei mam a'i brodyr a chwiorydd wedi cael eu halltudio i Latfia a'u lladd. Dinistriwyd y llythyr pan fomiwyd tŷ ei rhieni maeth yn ystod Blitz Abertawe. Roedd ei

[2] United States Holocaust Memorial Museum, *Kristallnacht* (2019) <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/kristallnacht> [cyrchwyd 24 August 2022].

[3] United States Holocaust Memorial Museum, *Kindertransport* (2021) <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/kindertransport-1938-40> [cyrchwyd 24 August 2022].

thad wedi dianc i Brydain ond cafodd ei alltudio i Awstralia ar fwrdd yr *HMT Dunera* ym 1940. Welodd hi byth mohono eto.

**b)** Gwyliwch glip ble mae [Ellen Davies yn siarad am gofio'r Holocost](Ellen Davies yn siarad am gofio'r Holocost).

**Trawsgrifiad Hanes Llafar:**

*A chefais gymaint o lawenydd, oherwydd nid arddangosfa Anne Frank oedd yr arddangosfa, ond arddangosfa am gynnydd Sosialaeth Genedlaethol, cynnydd Hitler, ar hyd fy oes, ac yna, dod yn ôl at yr hyn sydd eto i ddod. Ac mae'n rhaid i mi esbonio hyn i'r plant, allwch chi ddim ... nid fy stori i yw hon, stori Anne Frank yw hon, felly allwch chi ddim rhoi eich hun... allwch chi ddim adrodd eich stori wrthyn nhw, felly… mae 'na rai rhannau lle gallwch chi ddweud, wyddoch chi, mae Hitler i fod i… mae 'na un ffotograff, Hitler gyda… gyda phlentyn, mae Hitler yn caru plant. A dwi'n troi rownd at… at y grwpiau sydd gen i a dwi'n dweud, "Allan o chwe miliwn, alla' i ddim dweud wrthych chi faint o'r rheini oedd yn blant, ond fe alla' i ddweud wrthych chi faint allan o un teulu fu farw." A dwi'n dweud, "Dyna fy nheulu i. Allan o saith o blant," dwi'n dweud, "bu farw chwech." A'r olwg ar yr wynebau 'na. Ac yna rydych chi'n dod at Kristallnacht, pan dwi'n esbonio, roeddwn i... mewn synagog roedden nhw'n ei llosgi. Doedd y ffaith nad oedd y dyddiadau o bwys yma nac acw. A'r argraff ar y plant 'ma. Hynny yw, roeddwn i wedi blino'n lân, roeddwn yn sâl drwyddo, ond dydw i erioed wedi gwneud unrhyw beth dwi'n ei ystyried yn werth chweil. Mae gen i... mae gen i athrawon sy'n gofyn i mi pryd y gallaf siarad â'r ysgolion, ond y peth a ddaeth allan o hyn, sydd mor bwysig i mi, dwi wedi treulio fy mywyd yn siarad â Duw, gan ddweud "Pam ydw i'n fyw a'r lleill ddim?" A dim ond tua diwedd yr arddangosfa hon y sylweddolais, dwi yma fel athrawes i addysgu'r plant 'ma beth i beidio â'i wneud yn y dyfodol, i ddweud wrthynt am y gorffennol fel nad yw'r dyfodol yn ailadrodd y gorffennol.*

**c)** Gan weithio mewn parau neu grwpiau bach, ystyriwch a thrafodwch:

- Pam fod Ellen Davis yn meddwl y dylid cofio am yr Holocost? A yw hyn yn wahanol i'r hyn a ddywedodd y Cynghorydd McKerlich?
- Pa mor bwysig yw adroddiadau llygad-dyst wrth gofio'r Holocost? Sut byddwn ni'n coffáu'r Holocost pan nad yw goroeswyr yn fyw mwyach?

**GWEITHGAREDD 4**

Gan weithio'n unigol, mewn parau, neu grwpiau llai, dyluniwch gofeb Holocost, a fydd yn sefyll mewn ardal leol, e.e., parc, tir yr ysgol, sgwâr y dref.

Ystyriwch y cwestiynau canlynol wrth ddylunio'r gofeb:

- Pa ffurf fydd y gofeb?
- Pa faint fydd hi?
- A fydd yn cynnwys unrhyw symbolau?

- Yn y safle, sut y byddant yn esbonio'r rheswm dros ei chreu? Os oes pennawd yn mynd i fod, beth fydd yn ei ddweud?

Dylent greu braslun o’r gofeb a’i gyflwyno i’r dosbarth, gan egluro pam eu bod wedi dewis y math arbennig hwn o goffâd, a’r hyn mae’n ei symboleiddio.